



Coridorau

Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Argraffwch y ddwy daflen waith 'Coridorau' ar gyfer pob disgybl
- Pensiliau neu bennau lliw
- Papur bras

I gwblhau'r daflen:

1. Eglurwch fod anifeiliaid yn defnyddio'u cynefinoedd i wahanol bethau a bod y gallu i symud rhwng gwahanol ardaloedd yn bwysig iawn.
2. Mae pob disgybl yn dechrau gweithio ar y daflen waith, gan geisio dod o hyd i ffordd o gynnwys gwahanol ddefnydd o dir wrth ddal i ganiatáu crwydro rhwng ardaloedd cynefin.
3. Mae'r disgyblion yn dyfeisio ac yn tynnu lluniau o ffyrdd i'r anifeiliaid groesi unrhyw beth sy'n rhwystro eu llwybr.

Coridorau



Coridorau bywyd gwyllt: Mae coridorau bywyd gwyllt yn ffordd o gadw cynefinoedd yn gysylltiedig, hyd yn oed pan fo datblygiadau newydd yn torri cysylltiad ardaloedd a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig. Mae coridorau bywyd gwyllt yn galluogi anifeiliaid i symud yn ddiogel ar draws ardaloedd eang. Gallant fod ar nifer o ffurfiau yn cynnwys: gwrychoedd, ochrau ffyrdd, ymylau caeau a gerddi trefol.

Rheolau'r gêm: Mae'r grid eisoes yn cynnwys ffyrdd ac afonydd, ac mae'n rhaid i chi ychwanegu 30 sgwâr cynefin gwyrdd a 30 sgwâr tref coch i'r grid. Mae angen i chi wneud yn siŵr bod llwybr gwyrdd o'r dechrau i'r diwedd fel y gall anifeiliaid ei ddilyn yn ddiogel. Gallant ond symud rhwng y sgwariau sydd wrth ymyl ei gilydd, ond nid yn groeslinol.

Pryd bynnag mae'n rhaid i'ch llwybr groesi ffordd neu afon, mae'n rhaid i chi ddyfeisio ffordd ddiogel i'r anifeiliaid ei chroesi. Lluniwch a disgrifiwch eich dyfais isod:




Mae colli coedwigoedd yn achosi mwy o allyriadau CO² na holl drafnidiaeth y byd.

Gêm fwrdd coridor



Diwedd



Dechrau

30 sgwâr cynefin



30 sgwâr tref



Mae rhostir yn gynefin mwy
prin na fforestydd glaw.



Ticiwch bob sgwâr wrth i chi ei ychwanegu i'r grid